# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd – CYHOEDDUS

## COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

09:30 – 12:10 | 08/07/2025 | MS Teams

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Marian Wyn Jones |

| Yn Bresennol (Aelodau) | | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Marian Wyn Jones (Cadeirydd) | MW-J | Aelod Annibynnol, Cadeirydd | IGDC |
| Alistair Klaas Neill | AKN | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | IGDC |
| Ruth Glazzard | RG | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Bwrdd | IGDC |
| Marilyn Bryan Jones | MB-J | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Yn bresennol | | | |
| Julie Ash | JA | Pennaeth Ystadau a Chydymffurfiaeth | IGDC |
| Henry Bales | HB | Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol | Caerdydd a'r Fro |
| Stephen Chaney | StC | Pennaeth Archwilio Mewnol | Archwilio Mewnol PCGC |
| Nathan Couch | NC | Arweinydd Archwilio Perfformiad | Archwilio Cymru |
| Mark Cox | MC | Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid | IGDC |
| Chris Darling | CD | Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol \| Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |
| Andrew Doughton | AD | Rheolwr Archwilio Perfformiad | Archwilio Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ifan Evans (ar gyfer eitem 4.4i) | IE | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth | IGDC |
| Paul Evans | PE | Pennaeth Cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio | IGDC |
| Nadine Payne (ar gyfer eitem 4.4) | NP | Pennaeth Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol | IGDC |
| Shikala Mansfield | SM | Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol | IGDC |
| Chris Moreton | CM | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Sicrwydd Busnes | IGDC |
| Julie Robinson | JR | Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol | IGDC |
| Laura Tolley | LT | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol \| Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |

| Ymddiheuriadau | | | |
|---|---|---|---|
| Mike Whiteley | MW | Arweinydd Archwilio | Archwilio Cymru |
| David Tomalin | DT | Arweinydd Archwilio | Archwilio Cymru |
| Claire Osmundsen-Little | COL | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | IGDC |
| Julie Francis | JF | Pennaeth Gwasanaethau Masnachol | IGDC |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | AS | Archwilio a Sicrwydd |
| AIA | Awdurdod Iechyd Arbennig | DPIF | Cronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol |
| BAF | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | PCGC | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| DSPP | Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd | PSPP | Perfformiad Talu'r Sector Cyhoeddus |

| DDaT | Digidol, Data a Thechnoleg | | |
|---|---|---|---|

| Rhif yr Eitem | Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1 | MATERION RHAGARWEINIOL | | |
| 1.1 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd, Marian Wyn Jones, bawb i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.<br>Rhoddwyd croeso arbennig i'r rhai oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.<br>Cynhaliwyd y cyfarfod trwy Microsoft Teams ac atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai'n cael ei bostio ar wefan IGDC yn dilyn y cyfarfod. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.2 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>• Mike Whiteley, Archwilio Cymru<br>• David Tomalin, Archwilio Cymru<br>• Claire Osmundsen-Little, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid<br>• Julie Francis, Pennaeth Gwasanaethau Masnachol | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | **Datganiadau o Fuddiant**<br>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2 | AGENDA GYDSYNIO – I'W CHYMERADWYO | | |
| 2.1 | **Cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfodydd 08 Ebrill 2025 – Cyhoeddus a Phreifat Cryno.**<br>Gellir gwylio y cyfarfod Pwyllgor yn llawn isod neu drwy ddilyn y ddolen yn y teitl. | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | <br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**GYMERADWYO'R** cofnodion fel cofnod cywir o'r drafodaeth a fyddai ar gael i'r cyhoedd. | | |
| 2.2 | **Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.3 | **Blaengynllun Gwaith**<br>Holodd Ruth Glazzard, Is-gadeirydd ac Aelod Annibynnol (RG), am hepgor ail-uwchgyfeirio gwaith ar y blaengynllun gwaith. Cydnabuwyd bod gan y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni oruchwyliaeth o'r gwaith hwn, ond awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd dderbyn diweddariadau os nad oedd hyn yn dyblygu gwaith.<br>Cadarnhaodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd y gellid edrych ar y dull uwchgyfeirio yn hytrach na'r garreg filltir a byddai'r dull ehangach hwn o uwchgyfeirio yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf ym mis Hydref.<br>**CAM GWEITHREDU 20250708-A01** ychwanegu'r diweddariad ar y dull ehangach o uwchgyfeirio materion i'r cyfarfod nesaf.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** cynnwys Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor. | Nodwyd | **CAM GWEITHREDU:** ychwanegu'r dull ehangach o uwchgyfeirio at y cynllun gwaith ar gyfer mis Hydref. |
| 2.4 | **Adroddiad Safonau Ymddygiad** | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, bod cyfradd cydymffurfio o 99% ar gyfer Datganiadau o Fuddiant wedi'i chyflawni ar gyfer band 8a ac uwch.<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>NODI'R Adroddiad Safonau Ymddygiad | | |
| 2.5 | Adroddiad Ystadau, Datgarboneiddio a Chydymffurfiaeth<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>NODI'R Adroddiad Ystadau, Datgarboneiddio a Chydymffurfiaeth | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.6 | Adroddiad Diweddaru Cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>NODI'R Adroddiad Diweddaru Cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.7 | Adroddiad Ansawdd Blynyddol<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>GYMERADWYO'R Adroddiad Ansawdd Blynyddol. | Cymerad wywyd | Dim i'w nodi |
| 2.8 | Cylchlythyr Iechyd Cymru – Adroddiad Blynyddol Chwe-misol<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>DDERBYN Adroddiad Cylchlythyr Iechyd Cymru er SICRWYDD. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.9 | Adroddiad y Gymraeg ac Adroddiad Blynyddol y Gymraeg<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>GYMERADWYO Adroddiad y Gymraeg ynghyd ag Adrodd Blynyddol y Gymraeg. | Cymerad wywyd | Dim i'w nodi |
| 2.10 | Gweithdrefn Rheoli Ariannol – Cronfa Blaenoriaethau Cenedlaethol<br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br>GYMERADWYO'R Weithdrefn Rheoli Ariannol – Cronfa Blaenoriaethau Cenedlaethol | Cymerad wywyd | Dim i'w nodi |
| 2.11 | Adroddiad Ymgynghori a Chymeradwyo Dogfennau | Cymerad wywyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Recriwtio ac Adnoddau<br>• Trais, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol<br>• Llesiant (gan gynnwys Iechyd Meddwl a Rheoli Straen)<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**GYMERADWYO**'r tri pholisi. | | |
| RHAN 3 – BUSNES Y CYFARFOD | | | |
| 3.1 | **Cofnod Gweithredu**<br>Nododd y Pwyllgor fod un cam gweithredu a nodwyd o'r cyfarfod diwethaf wedi'i gwblhau a'i ddogfennu yn y Cofnod Gweithredu.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** statws y Cofnod Gweithredu. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 4 | ARCHWILIO AC ATAL TWYLL | | |
| 4.1 | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol**<br>Cyflwynodd Stephen Chaney (StC), Dirprwy Bennaeth Archwilio Mewnol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith ar gyfer 2025/26 a chrynodeb o'r gwaith a wnaed yn ystod cyfnod 2024/25.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** diweddariad Archwilio Mewnol er **SICRWYDD**. | Er Sicrwydd | Dim i'w nodi |
| 4.2 | **Adroddiad yr Adolygiad Archwilio Mewnol**<br>Darparodd StC drosolwg lefel uchel o'r ddau adolygiad archwilio:<br>**Cynaliadwyedd Ariannol**<br>Cafodd yr adolygiad sgôr Sicrwydd ***Sylweddol***.<br>• Roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cyllid ond roedd rheolaethau da ar waith.<br>• Derbyniwyd yr holl argymhellion gan y Rheolwyr.<br>**Gwaith dilynol ar yr Argymhellion Archwilio Mewnol**<br>Cafodd yr adolygiad sgôr Sicrwydd ***Sylweddol***.<br>Cafodd yr holl argymhellion eu cynnal yn dda ac nid oedd unrhyw eithriadau. | Er Sicrwydd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**DDERBYN** y ddau adolygiad archwilio er **SICRWYDD**. | | |
| 4.3 | **Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26**<br><br>Cyflwynodd StC y Cynllun Archwilio Mewnol Terfynol ac atgoffodd yr aelodau fod y cynllun wedi dod i law yng nghyfarfod mis Ebrill a'i fod wedi'i ddiwygio i gynnwys y trafodaethau a'i fod bellach yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**GYMERADWYO** Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 a'r Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol. | Cymerad wywyd | Dim i'w nodi |
| 4.4 | **Diweddariad gan Bwyllgor Archwilio Cymru**<br><br>Cyflwynodd Nathan Couch ac Andrew Doughton o Archwilio Cymru ddiweddariad Archwilio Cymru, gyda'r uchafbwyntiau canlynol:<br><br>• Aeth yr archwiliad Ariannol yn dda ac mae bellach wedi'i gymeradwyo.<br>• Amlinellwyd y rhaglen archwilio ar gyfer y flwyddyn.<br>• Roedd y gwaith Asesu Strwythuredig yn mynd rhagddo'n dda gyda'r gwaith maes wedi'i gwblhau.<br>• Roedd ymchwiliad digidol manwl ar y gweill ledled Cymru gyfan – 12 sefydliad a'u trefniadau i gyflawni eu huchelgais ddigidol.<br><br>**Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**<br><br>Cyflwynodd Nathan Couch, Arweinydd Perfformiad Archwilio, Archwilio Cymru, yr adroddiad a chadarnhaodd fod yr adolygiad wedi'i fwriadu i weld beth oedd dull IGDC o Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ac archwilio sut mae IGDC yn cynllunio, yn cyflawni, yn ymateb ac yn goruchwylio gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ailadroddodd NC y casgliadau allweddol a'r prif bwyntiau:<br><br>• Roedd yn strategaeth glir ond roedd risgiau o ran adnoddau.<br>• Roedd angen i'r strategaeth alinio blaenoriaethau, sicrhau digon o adnoddau, | Er Sicrwydd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwella dysgu/adrodd ac ystyried cyfleoedd i aelodau'r tîm gweithredol gymryd rhan.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**DDERBYN** Diweddariad Archwilio Cymru er **SICRWYDD**, **NODI'R** Cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid. | | |
| 4.5 | **Traciwr Camau Gweithredu Archwilio**<br><br>Cyflwynodd Laura Tolley (LT), Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, y Traciwr Camau Gweithredu Archwilio.<br><br>Roedd y Cofnod Gweithredu Archwilio yn cynnwys cyfanswm o 39 o gamau gweithredu ar ôl derbyn pum adolygiad yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Nodwyd yr ystyriwyd bod 21 o'r rhain wedi'u cwblhau, roedd 15 ar y trywydd iawn i'w cwblhau, ac roedd tri wedi pasio'r dyddiad gweithredu. Roedd pedwar o'r camau gweithredu hyn yn gamau gweithredu preifat a byddai papur adroddiad sy'n amlinellu'r sefyllfa yn cael ei drafod yn y cyfarfod preifat.<br><br>Cadarnhaodd LT y byddai'r drafodaeth ar y cais i ymestyn y dyddiad targed ar gyfer tri cham gweithredu yn cael ei chynnal yn y sesiwn breifat.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI** statws y Traciwr Camau Gweithredu Archwilio. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 4.6 | **Adroddiad Diweddaru ar Atal Twyll Lleol**<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Diweddaru Atal Twyll Lleol ar gyfer Chwarter 1.<br><br>Tynnodd Henry Bales, Pennaeth Atal Twyll, sylw at y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod:<br><br>• Roedd cynnydd da yn cael ei wneud gyda'r cwrs e-ddysgu atal twyll gorfodol. Roedd y broses ymsefydlu corfforaethol hefyd yn mynd rhagddi'n dda.<br>• Crynodeb o'r cynnydd gyda'r Fenter Twyll Genedlaethol – bron wedi eu hadolygu i gyd. Un ymchwiliad i'w drafod yn y sesiwn breifat.<br>• Daethpwyd un digwyddiad i ben.<br><br>Cadarnhaodd HB fod lefel dda o adnoddau ond bod | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mwy o waith y gellid ei wneud a byddent yn manteisio ar Ddeallusrwydd Artiffisial / digidol.<br><br>**Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Atal Twyll 2024-2025**<br><br>Cyflwynodd HB yr Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Atal Twyll ar gyfer 2024/25 a thynnodd sylw at y gweithgareddau a gyflawnwyd gan dîm y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol a dangosodd sut maen nhw wedi cyflawni eu gweithgareddau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd. Yn ogystal, yn unol â safonau Gwasanaeth Atal Twyll y GIG ar gyfer darparwyr, dogfennodd yr adroddiad y manylion canlynol:-<br><br>• Dyddiau a ddefnyddir i gyflawni gwaith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd.<br>• Roedd nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu.<br>• Cost gwaith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd a wnaed yn ystod y flwyddyn<br>• Manylion unrhyw ymarferion rhagweithiol yn seiliedig ar risg a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn<br>• Nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau ac achosion a gofnodwyd ar system rheoli achosion Gwasanaeth Atal Twyll y GIG<br>• Nifer a math y sancsiynau a osodwyd, gan gynnwys yr adferiadau a wnaed.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'R** Adroddiad Cynnydd y Gwasanaeth Atal Twyll a **CHYMERADWYO** Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Atal Twyll 2024/25 | | |
| RHAN 5 | ADRODDIADAU LLYWODRAETHU | | |
| 5.1 | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd – Archwiliad Dwfn i Adolygiad o'r Gweithlu Digidol**<br><br>Fel rhan o Archwiliad Dwfn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i Genhadaeth 5, darparodd Shikala Mansfield, Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, ddiweddariad at lafar ar y Gweithlu Digidol.<br><br>• Roedd cynnydd yn cael ei wneud ar alinio rolau digidol a llywodraethu.<br>• Un o'r mentrau arwyddocaol yw creu pyrth datblygu, gan gynnwys porth newydd i IGDC a | I'w Nodi | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fydd yn cefnogi cynllunio gyrfaoedd ac yn cyd-fynd â safonau cenedlaethol.<br>• Yn ogystal, roedd ffocws ar gynllunio gweithlu systemau, sy'n cynnwys cynllunio cydlynol ar draws GIG Cymru.<br>• Sefydlu rhwydwaith sgiliau digidol mewn cydweithrediad â phartneriaid.<br>• Agwedd nodedig o'r adolygiad oedd y pwyslais ar gynhwysiant digidol, yn enwedig wrth gefnogi menywod mewn rolau digidol.<br>• Wrth edrych ymlaen, roedd y blaenoriaethau'n cynnwys mapio rolau, safoni swydd-ddisgrifiadau, a chreu porth cymunedol. Hefyd, roedd yna gynllun i lansio menter i gefnogi menywod yn y byd digidol.<br>• Roedd cynnydd cyson a chadarnhaol yn cael ei wneud yn y meysydd hyn.<br><br>Trafodwyd yr heriau recriwtio parhaus a'r bwlch sgiliau, gydag ymdrechion i feithrin cysylltiadau â GIG Lloegr a chadw talent mewnol yn rhan o'r drafodaeth.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol derbyn diweddariad mewn cyfarfod yn y dyfodol pan fyddai'r mapio rolau wedi'i gwblhau.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'R** Archwiliad Dwfn i Adolygiad o'r Gweithlu Digidol. | | |
| 5.2 | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol**<br><br>Rhoddodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd, ddiweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol:<br><br>Mae 20 risg ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, a neilltuwyd pedair risg i'r Pwyllgor:<br>• **DHCW0207** – Strategaeth Rheoli Dogfennau – risg newydd a oedd yn ymwneud â chydymffurfiaeth ac achrediad i ISO. Roedd cynnydd yn cael ei wneud ar ddychwelyd i gydymffurfiaeth erbyn diwedd mis Awst, ac ar hyn o bryd roedd 64% wedi'i gwblhau ar gynllun y prosiect.<br>• **DHCW0331** – Cyllid Adnoddau Tymor Penodol – gweithgareddau ac asesiadau parhaus sy'n | Trafodwyd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gysylltiedig â risgiau a nodwyd. Tynnodd sylw at yr angen i raddio'r gorwel i bennu'r galw a'r gofynion capasiti yn y dyfodol. Roedd y sefydliad yn ymgysylltu'n weithredol â Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â heriau cyllido ac adnoddau tymor penodol ar gyfer y blynyddoedd 2024-2025 a 2025-2026.<br>• DHCW0337 – Gwasanaethau Digidol Cynaliadwy a Model Ariannu Datblygu - Roedd gwaith yn mynd rhagddo, fodd bynnag, roedd cynnydd wedi'i wneud ar y dyraniad ariannol ar gyfer y flwyddyn hon ond roedd mwy o waith o hyd; roedd y cyllid rheolaidd mewn sefyllfa dda.<br>• DHCW0346 – Gweithredu Adolygiad Llywodraethu DDaT. Sefyllfa bresennol – roedd rhai risgiau o fewn rheolaeth IGDC a rhai y tu allan. Fodd bynnag, roedd y risg wedi'i lliniaru'n rhannol gyda datblygiad y Bwrdd Arweinyddiaeth a'r Grŵp Cyflawni Digidol sy'n eistedd oddi tano.<br><br>Risgiau wedi'u Dileu – DHCW0342 Llythyr Cylch Gwaith 2025/26<br><br>Trafododd y Pwyllgor yr angen i nodi a dogfennu lliniariadau anwleidyddol gan gydnabod y potensial ar gyfer newidiadau mewn gwneud penderfyniadau ar lefel arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer y GIG ac IGDC.<br><br>Cydnabu CD fod y mater hwn yn ffitio o fewn y golofn cyfleoedd a bygythiadau, fodd bynnag, cytunodd CD i fynegi risg yn ymwneud â'r newid posibl mewn pŵer gwleidyddol y flwyddyn nesaf i'w hystyried.<br><br>CAM GWEITHREDU:20250708 A02 CD i fynegi risg yn ymwneud â'r newid posibl mewn pŵer gwleidyddol y flwyddyn nesaf i'w ystyried.<br><br>Penderfynodd y Pwyllgor:<br><br>DRAFOD y Gofrestr Risg Gorfforaethol | | CAM GWEITHREDU: CD i fynegi risg yn ymwneud â'r newid posibl mewn pŵer gwleidyddol y flwyddyn nesaf i'w ystyried. |
| 5.3 | **Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel a Chronnus**<br><br>Cyflwynodd Mark Cox, Cyfarwyddwr Cyswllt | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyllid, yr Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel a Chronnus ar gyfer y cyfnod 17 Mawrth i 24 Mehefin 2025, gan roi'r uchafbwyntiau a ganlyn:<br>• Roedd pedair archeb gwerth uchel o fwy na £0.75m y codwyd ac y manylwyd arnynt yn yr adroddiad er gwybodaeth.<br>• Gorchymyn Cronnus – mae gwariant cytundebol EMIS yn cwmpasu tua 230 o bractisiau ac wedi nodi'r trefniadau cymorth cynnal a chadw ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol.<br>Cytunodd MC i ymateb y tu allan i'r cyfarfod i ymholiad ynghylch y contract Printiau Rheoledig Meddygon Teulu ac a fyddai'r contract yn gostwng gydag EMIS.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** Diweddariad yr Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel a Chronnus | | |
| 5.4 | **Colledion a Thaliadau Arbennig – diweddariad ar lafar**<br>Rhoddodd MC ddiweddariad ar lafar ar y Colledion a Thaliadau Arbennig, a chadarnhaodd nad oedd dim i'w ddwyn i sylw'r Pwyllgor. Fodd bynnag, bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** diweddariad ar lafar ar Golledion a Thaliadau Arbennig | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 5.5 | **Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a Chynllun Dirprwyo**<br>Cyflwynodd Chris Moreton (CM), Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Sicrwydd Busnes, yr adroddiad ar Gydymffurfiaeth Caffael a'r Cynllun Dirprwyo.<br>• 2 x Gam Gweithredu Tendr Sengl – cyfanswm y gwerth £4,090,000.00 heb TAW<br>• 2 x Reoli newid – cyfanswm gwerth £167,780.00 heb TAW<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a | Trafodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Chynllun Dirprwyo | | |
| RHAN 6 | MATERION I GLOI | | |
| 6.1 | **Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor i'r Bwrdd**<br>Oherwydd cyfyngiadau amser trafodwyd hyn y tu allan i'r Pwyllgor. | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 6.2 | **Unrhyw Faterion Brys eraill**<br>Ni chodwyd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 6.3 | **Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf:**<br>• 07 Hydref 2025 | Nodwyd | Dim i'w nodi |